**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PWYLLGOR ARCHWILIO**

Cofnodion o Gyfarfod Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd 7fed Mehefin 2010 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 2 o'r gloch y prynhawn.

PRESENNOL

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd E C George (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cynghorydd N M Jones | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cynghorydd W Knightly | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cynghorydd D Mackie | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cynghorydd G O Williams | Cyngor Gwynedd |

HEFYD YN BRESENNOL:

C Everett (Clerc); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); M Halstead (Pennaeth Archwilio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); K V Williams (Adran Archwilio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); Joanne West (KPMG); J Brown (Rheolwr Cyllid); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

Ymddiheuriadau:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd B Blackmore | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cynghorydd M Griffith | Cyngor Gwynedd |
| Y Cynghorydd E M Jones | Cyngor Gwynedd |
| Y Cynghorydd A Minshull | Cyngor Sir y Fflint |

1 COFNODION

1.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 1af o Fawrth 2010 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

2 MATERION YN CODI

2.1 4.2 - Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) - yn y cyfarfod diwethaf, roedd Sandra Forrest wedi dweud y byddai'n dosbarthu'r fantolen drosiannol i Aelodau ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf am yr IFRS.

2.2 Y prif newidiadau i'r fantolen oedd ailddosbarthiad y prydlesau a darpariaeth yn y cyfrifon ar gyfer manteision gweithiwyr.

2.3 Yn dilyn asesiad o'r prydlesau o dan feini prawf yr IFRS, roedd nifer o'r prydlesau tendr argyfwng wedi eu hailddosbarthu fel prydlesau ariannol ac wedi eu cynnwys fel Asedau ar y fantolen drosiannol.

2.4 Yn dilyn asesiad o'r buddion gweithwyr (IAS19) oedd wedi eu hennill ond heb eu talu ar y 1af Ebrill 2009, ychwanegwyd £369,000 i'r adran credydwyr ar y fantolen. Disgwylir y bydd datganiad yn cael ei gyhoeddi i wrthdroi'r croniad - **y Clerc i gadarnhau'r wybodaeth hon wedi iddo dderbyn cyngor cenedlaethol**.

3 GWEITHREDU'R SAFONAU ADRODD ARIANNOL RHYNGWLADOL - DADANSODDIAD EFFAITH; POLISÏAU CYFRIFYDDA; CYNLLUN PROSIECT

3.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i hysbysu Aelodau am y camau cychwynnol ar gyfer gweithredu'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

3.2 Arweiniodd Sandra Forrest yr Aelodau drwy atodiadau'r adroddiad:
- Dadansoddi'r effaith o gyflwyno IFRS ar gyfrifon yr Awdurdod;
- Newidiadau Polisi Cyfrifydda; a'r
- Cynllun Gweithredu.

3.3 Wrth ymateb i gwestiwn gan Aelod ynglŷn â'r gwaith ychwanegol i'r adran Gyllid, esboniodd Sandra Forrest mai'r prif waith fyddai'r rhaglen gyfalaf a dyrannu popeth i wahanol gydrannau. Fodd bynnag ni fyddai hyn yn ormod o faich gan fod rhaglen gyfalaf yr Awdurdod yn eithaf bach.

3.4 Roedd y polisi cyfrifo newydd wedi ei ysgrifennu i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r safonau IFRS newydd. Trafodwyd rhai agweddau o'r polisi cyfrifo newydd ac eglurodd Sandra Forrest rhai o'r newidiadau fel y nodir isod:

3.5 Asedau o natur arbenigol - bydd pob gorsaf dân yn dod o dan y pennawd hwn gan eu bod nawr wedi'u pennu yn Ased Cyfwerth Modern. Mae cost amcanol wedi ei osod ar yr holl asedau a disgwylir i hyn helpu gyda'r cynllun rheoli asedau i sicrhau gwariant a rhaglennu priodol.

3.6 Gwnaed asesiad o'r adeiladau ar brydles ac mae gan yr Awdurdod bedwar eiddo ar brydles. Cadarnhawyd mai'r heddlu sy'n berchen y Ganolfan Gyfathrebiadau ar y Cyd ac mai nhw fydd yn datgan yr adeilad yn eu cyfrifon hwy. Roedd mentrau ar y cyd wedi eu crybwyll yn y polisi rhag ofn fyddai mwy ohonynt yn y dyfodol.

3.7 Bydd y pwyllgor yn derbyn cyfrifon 2009/10 ar ffurf IFRS yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi.

3.8 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r Dadansoddiad Effaith;**
**(ii) cymeradwyo'r Polisi Cyfrifydda; a**
**(iii) chymeradwyo'r Cynllun Gweithredu.**

4 DATGANIAD O SICRWYDD YR ARCHWILIAD MEWNOL BLYNYDDOL 2009/10

4.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i Aelodau gan fod rhaid i'r Awdurdod gynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ei system rheolaeth fewnol.

4.2 Am y 12 mis a ddaeth i ben ar Fawrth 31ain 2010, roedd gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru brosesau rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol boddhaol ar gyfer rheoli'r modd roedd yr Awdurdod yn cyflawni ei amcanion.

4.3 **PENDERFYNWYD derbyn Datganiad Sicrwydd Blynyddol yr Archwiliad Mewnol, a'i ddefnyddio wrth gyfrannu i'r dystiolaeth yng nghynnwys y Datganiad ar Reolaeth Fewnol 2009/10.**

5 CRYNODEB O WEITHGARWCH ARCHWILIO MEWNOL 2009/10 AC ASESIAD O ANGHENION A CHYNLLUN ARCHWILIO DRAFFT 2010/11

5.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i hysbysu'r Aelodau o waith archwilio mewnol a wnaed yn 2009/10 ac i ofyn i'r Aelodau gymeradwyo Asesiad o Anghenion a Chynllun Archwilio Drafft 2010/11.

5.2 Esboniodd Keith Williams fod 43 o ddiwrnodau archwilio wedi eu darparu i'r Awdurdod yn 2009/10. Yn ychwanegol i hyn, dyrannwyd 8 diwrnod er mwyn cynorthwyo a chynghori'r prosiect trosglwyddo o System Gyfrifyddu'r Awdurdod i System AS400 Conwy. Gan nad yw'r prosiect wedi symud ymlaen fel y bwriadwyd, bydd yr 8 diwrnod yn cael eu hychwanegu i ddyraniad diwrnodau 2010/11.

5.3 Roedd yr Adran Archwilio Fewnol wedi llunio pedwar adroddiad ynglŷn â'r meysydd canlynol:

- Casglu Incwm a Bancio
- Diogelu Data
- Menter Dwyll Genedlaethol
- E-Lywodraeth.

5.4 Unwaith mae'r archwiliad wedi ei gwblhau bydd yr Adran Archwilio yn gwneud archwiliad pellach oddeutu 6-8 mis yn ddiweddarach i sicrhau fod unrhyw gamau angenrheidiol wedi eu cwblhau.

5.5 Nodwyd fod y cynlluniau archwilio mewnol yn cael eu rhannu gyda KPMG i sicrhau nad oes dyblygiad. Esboniodd Joanne West o KPMG y byddai effaith y Mesur Llywodraeth Leol hefyd yn cael ei ystyried.

5.6 Gofynnodd yr Aelodau am gynllun o waith y pwyllgor am y deuddeg mis nesaf.

5.7 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r Crynodeb o weithgaredd Archwilio Mewnol 2009/10; a**

**(ii) chymeradwyo'r Asesiad o Anghenion a'r cynllun Archwilio Mewnol drafft ar gyfer 2010/11.**